# Darparu cymorth grŵp i unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â chynllunio, paratoi a hwyluso cymorth grŵp i unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio gydag unigolion i flaenoriaethu eu hamcanion ar gyfer cymorth grŵp er mwyn bodloni eu hanghenion
2. gwneud cynlluniau ar gyfer sesiynau cymorth grŵp sy'n gwneud y defnydd gorau o amser ac adnoddau
3. sefydlu'r meini prawf a'r fformat ar gyfer grwpiau o unigolion
4. pennu'r angen am oruchwyliaeth glinigol allanol sy'n asesu cymorth grŵp a dynameg grŵp
5. bwrw ymlaen ag unrhyw gamau a nodwyd trwy oruchwyliaeth glinigol allanol sy'n cyfrannu at ddynameg y grŵp a chymorth unigolion
6. trafod a chytuno ar nodau'r grŵp, gydag unigolion sy'n rhan o'r grŵp
7. cadarnhau bod unigolion yn deall ac yn cydsynio i reolau cyfrinachedd cytunedig
8. cytuno ar agweddau ar gymorth grŵp gyda'r unigolion sy'n gysylltiedig
9. hwyluso sesiynau gwaith grŵp gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gweithgareddau ac adnoddau i fodloni nodau ac amcanion a nodwyd ar gyfer y grŵp ac annog unigolion i gymryd rhan
10. gweithio gydag unigolion mewn sesiynau grŵp, mewn ffyrdd sydd:
    - yn dangos parch ac uniondeb
    - yn dangos tegwch a chysondeb
    - yn annog ac yn cefnogi cyfraniadau
    - yn cydnabod hawliau a chyfraniadau'r cyfranogwyr
11. cefnogi ac ymateb i bryderon sy'n cael eu codi gan unigolion
12. ymateb i ddatgeliadau gyda'r grŵp yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
13. mynd i'r afael ag unrhyw ymddygiad rhagfarnllyd, heriol ac unrhyw ymddygiad annerbyniol arall yn unol â chanllawiau cytunedig y grŵp
14. cynnwys cyfranogwyr mewn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd gwaith grŵp

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni.
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
4. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd proffesiynol
5. beth yw cam-drin domestig neu drais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn eich cymuned leol
6. arwyddion o gam-drin a'r dulliau y mae camdrinwyr yn eu defnyddio i ennill grym a rheolaeth
7. yr effaith ar y rhai y mae cam-drin domestig neu drais rhywiol wedi effeithio arnynt
8. sut gall dibynyddion gael eu defnyddio gan gamdrinwyr fel rhan o'u camdriniaeth
9. y mathau o wybodaeth a chymorth y mae pobl sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol yn eu ceisio, a'u ffynonellau
10. rôl asiantaethau cymorth allanol o ran darparu cymorth ac ymyriadau i unigolion yn eich maes
11. sut i greu amgylchedd sy'n gwneud i unigolion deimlo'n gartrefol
12. beth yw ystyr gwaith grŵp
13. pwysigrwydd dynameg grŵp wrth reoli gweithgareddau grŵp
14. pwysigrwydd a buddion gwaith grŵp i unigolion, gan gynnwys magu hyder y cyfranogwyr
15. pwysigrwydd cytuno ar nodau clir a phenodol ar gyfer gwaith grŵp
16. yr adnoddau y mae eu hangen ar gyfer gweithgareddau grŵp a sut i gael at y rhain o fewn gofynion y gyllideb ac amser
17. pwysigrwydd cynllunio effeithiol ar gyfer sesiynau cymorth grŵp
18. ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio sesiynau cymorth grŵp gan gynnwys rhwystrau posibl rhag gwaith grŵp effeithiol a sut i fynd i'r afael â'r rhain
19. dulliau, technegau ac ymagweddau ar gyfer hwyluso a rheoli gwaith grŵp
20. sut i ddewis gweithgareddau a all fodloni amcanion unigol a grŵp
21. ffyrdd o annog unigolion i gymryd rhan a gofyn cwestiynau
22. pwysigrwydd monitro grwpiau am wrthdaro
23. sut i fynd i'r afael â gwrthdaro, ymddygiad heriol ac ymddygiad amhriodol

24. sut i fonitro a gwerthuso gweithgareddau gwaith grŵp a sut i gynnwys cyfranogwyr yn hyn
25. sut i adnabod llwyddiant a rhoi adborth adeiladol i gyfranogwyr
26. pwysigrwydd meithrin ffydd ac empathi gydag unigolion, a dulliau o wneud
27. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a sut i'w haddasu yn ôl anghenion unigolion
28. sut mae gwahanol ddiwylliannau yn defnyddio ac yn dehongli iaith y corff mewn ffyrdd gwahanol
29. pwysigrwydd cyfathrebu dieisiau
30. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o'u goresgyn
31. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o'ch gwerthoedd a'ch credoau eich hun a'r effaith y gall hyn ei chael wrth weithio gydag unigolion
32. sut i herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol neu a allai fod yn niweidiol, a phwysigrwydd gwneud hynny
33. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
34. yr amgylchiadau pan fydd angen mynd yn groes i ddymuniadau datganedig unigolion
35. pwysigrwydd sicrhau bod unigolion yn gwybod pam nad yw eu dymuniadau datganedig yn cael eu diwallu
36. cyfyngiadau cyfrinachedd sy'n berthnasol i'ch rôl

## Geirfa